**Adroddiad Blynyddol y Cyngor Optegol Cyffredinol i Gomisiynydd y Gymraeg 2024-25**

## Cyflwyniad

Eleni yw ein hail flwyddyn o weithredu o dan Safonau'r Gymraeg diwygiedig. Mae'r Safonau wedi dod yn rhan o'n gwaith bob dydd fel rheoleiddiwr. Rydym yn eu hystyried nid yn unig fel dyletswydd statudol, ond hefyd fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i degwch, cynhwysiant ac i drin pobl gyda pharch.

Mae ein hadroddiadau blynyddol blaenorol ar y Gymraeg ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg.

Mae ein dull gweithredu wedi bod yn ymarferol ac yn canolbwyntio ar bobl: gan ymgorffori'r Safonau mewn prosesau bob dydd, cefnogi cydweithwyr i ddeall eu cyfrifoldebau, a sicrhau bod siaradwyr Cymraeg, boed yn rheini sydd wedi cofrestru, yn gleifion neu aelodau o'r cyhoedd, yn gallu cael mynediad i'n gwasanaethau heb anfantais.

Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn deillio o ymrwymiad ein timau, canllawiau Fforwm Cyd-reoleiddwyr Safonau'r Gymraeg, ac adborth gan randdeiliaid fel Optometreg Cymru. Rydym yn cydnabod bod hyrwyddo'r Gymraeg yn waith parhaus, a byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella mynediad ac amlygrwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn.

## Cefndir

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn rheoleiddio gwasanaethau gofal llygaid yn y DU. Ein cenhadaeth yw diogelu'r cyhoedd trwy gynnal safonau uchel mewn gwasanaethau gofal llygaid. Rydym yn gwneud hyn trwy:

- osod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad.
- cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru.
- cynnal cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi i fod yn optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforaethol sy'n addas i barhau i weithredu fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi; ac
- ymchwilio a gweithredu lle gallai fod effaith ar addasrwydd y rhai sydd wedi cofrestru i ymarfer, hyfforddi neu weithredu.

Mae'r rheini sydd wedi cofrestru â ni'n cynnwys optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr optometreg ac optegwyr cyflenwi. Ar hyn o bryd rydym yn cymeradwyo Prifysgol Caerdydd fel yr unig ddarparwr addysg yng Nghymru a gymeradwywyd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol. Mae hyn yn rhoi cyswllt uniongyrchol i ni â myfyrwyr a'r rheini sydd wedi cofrestru yng Nghymru ac yn tanlinellu pam fod sicrhau mynediad teg i wasanaethau yng Nghymru yn bwysig.

Crëwyd Safonau'r Gymraeg a rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. I'r Cyngor Optegol Cyffredinol mae'r Safonau yn golygu sicrhau nad

yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod pobl ledled Cymru yn cael cyfleoedd gwirioneddol, ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â ni.

Ers y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio ym mis Rhagfyr 2023, rydym wedi parhau i ddatblygu'r rhaglen waith a osododd y sail ar gyfer Safonau'r Gymraeg. Mae'r sylfeini a sefydlwyd bellach yn rhan o'n gwaith bob dydd, o gyfieithu dogfennau a chynnal ymgynghoriadau dwyieithog i sicrhau bod ein gwefan, ein system ffôn a'n gwrandawiadau i gyd ar gael yn Gymraeg. Rydym nid yn unig yn anelu at fodloni gofynion y Safonau yn unig; lle mae'n gymesur ac ymarferol, rydym yn chwilio am gyfleoedd i fynd ymhellach a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch.

Ein Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth o ddydd i ddydd, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Gymraeg yn flaenoriaeth o ran rheoleiddio a chynhwysiant. Rydym yn falch bod gan ein Cyngor gynrychiolwyr o holl wledydd y DU, gan gynnwys Cymru, ac mae'n cael ei oruchwylio gan ein cynrychiolydd presennol, Lisa Gerson.

**Ein dull gweithredu 2024-25**

Rydym wedi mabwysiadu dull rhagweithiol a chynhwysol o ymgorffori Safonau'r Gymraeg. Mae hyn wedi cynnwys:

- Rhannu gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg ym mhob sesiwn ymsefydlu newydd fel bod cydweithwyr yn deall eu cyfrifoldebau o'r cychwyn cyntaf.
- Parhau i ddarparu hyfforddiant i bob aelod o holl staff ar hanes a diwylliant y Gymraeg, a'n cyfrifoldebau o dan Safonau'r Gymraeg.
- Gwneud y Gymraeg yn eitem sefydlog ar ein templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, fel na ellir cymeradwyo penderfyniadau polisi heb ystyried yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg.
- Cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n prif ddogfennau corfforaethol, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'n hadroddiad Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant blynyddol.
- Cynnal ein hwb mewnrwyd gydag arweiniad ymarferol ac adnoddau i staff.
- Gweithio'n agos gyda'r Fforwm Cyd-reoleiddwyr i rannu ymarfer, profi ein dealltwriaeth, a gweithredu dull cyson ar draws y sector.

**Safonau Cyflenwi Gwasanaeth**

Rydym wedi parhau i gryfhau'r ffyrdd y gall pobl ddefnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg:

- Mae ein system ffôn awtomataidd a'n gwefan yn parhau i fod ar gael yn Gymraeg.
- Yn ystod y flwyddyn, mae 17 o ddogfennau ychwanegol wedi'u cyfieithu, ac mae'r holl ddogfennau newydd neu ddiwygiedig perthnasol bellach yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Rydym yn barod i gynnal cyfarfodydd a gwrandawiadau yn Gymraeg os gofynnir am hynny. Mae gennym drefniadau wedi'u sefydlu gyda

darparwyr cyfieithu a staff hyfforddedig, er na dderbyniwyd unrhyw geisiadau eleni.
- Rydym yn parhau i gyhoeddi rhai dogfennau yn Gymraeg hyd yn oed lle nad yw hyn yn ofynnol, lle mae'n cefnogi hygyrchedd ac arfer da.
- Ym mis Hydref 2024, integreiddiwyd datrysiad cyfieithu digidol (Weglot) i'r llwyfan MyGOC presennol, gan alluogi defnyddwyr i gael mynediad i'r system yn Gymraeg a Saesneg. Roedd hyn yn bodloni gofynion terfynol yr hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg cyn y dyddiad cau penodedig.

Yn y Cyngor Optegol Cyffredinol, rydym am i bobl gael dewis gwirioneddol o ran sut maen nhw'n defnyddio ein gwasanaethau, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg. Mae hynny'n golygu y gallwch ddarllen dogfennau pwysig fel y Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi yn Gymraeg, cymryd rhan mewn ymgynghoriadau yn ddwyieithog, a chael mynediad at adroddiadau dethol yn Gymraeg. Mae cymorth cyfieithu a dehongli hefyd ar gael os hoffech gysylltu â ni yn Gymraeg.

Tudalen gwasanaethau Cymraeg.

**Safonau gweithredol**

Mae ein safonau gweithredol yn canolbwyntio ar ymgorffori'r Gymraeg yn y ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad. Mae hyn yn golygu cefnogi cydweithwyr i ddatblygu sgiliau, monitro’r defnydd o iaith ar draws ein gweithlu, a sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried wrth recriwtio.

- Rydym yn parhau i gynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.
- Mae ein ffurflen fonitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant flynyddol bellach yn cynnwys y defnydd o iaith, sy’n ein helpu i gael darlun cliriach o sgiliau Cymraeg ar draws ein gweithlu.
- Mae pob swydd newydd yn cael ei sgrinio ar gyfer gofynion Cymraeg. Nid oedd y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer yr un ohonynt yn 2024–25, ond mae'r broses bellach wedi'i hymgorffori.

**Cydymffurfio a Chwynion**

Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â Safonau'r Gymraeg yn 2024–25. Er bod hyn yn awgrymu bod ein prosesau'n gweithio'n dda, rydym yn parhau i ddarparu llwybrau clir ar gyfer cwynion yn Gymraeg fel y gall unrhyw un sy'n dymuno codi pryder wneud hynny'n hyderus.

**Edrych ymlaen**

Dyma ein ffocws ar gyfer 2025–26:

- Ar hyn o bryd mae gwaith ar y gweill i ddatblygu llwyfan MyGOC newydd, a fydd hefyd yn cynnwys yr un capasiti cyfieithu digidol â'r llwyfan presennol.

- Parhau i ehangu'r ystod o ddeunyddiau a gyhoeddir yn Gymraeg, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hanelu at y rheini sydd wedi cofrestru a'r cyhoedd yng Nghymru.
- Gweithio gyda phartneriaid a chydweithwyr ar draws y sector i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan arferol o fywyd proffesiynol. Ochr yn ochr â chwblhau'r elfen Gymraeg o fewn MyGOC, byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu’n fwy rhagweithiol â rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys profi adborth ar ein tudalennau gwe a'n dogfennau Cymraeg.

**Casgliad**

Rydym yn falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn ein hail flwyddyn o gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan o hunaniaeth a diwylliant Cymru, a'n rôl ni fel rheoleiddiwr ledled y DU yw sicrhau ei bod yn cael ei thrin gyda'r parch a'r cydraddoldeb y mae'n ei haeddu. Rydym yn ystyried bod Safonau'r Gymraeg nid yn unig yn ddyletswydd gyfreithiol ond yn gyfle i gryfhau ymddiriedaeth, hybu cynhwysiant, a chefnogi'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.